Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 18th Mai 2017 yn Neuadd y Pentref, Tycroes

1 – Aelodau'n bresennol

Cynghorwyr:
G Thomas
M Nicholas
A Blackley
L Griffiths
B Thomas
B Evans
C Higgins
T Higgins
R C Roberts
B D Davies
S A Evans

Y Cadeirydd Y Cynghorydd G Thomas oedd yn llywyddu ar y cyfarfod

Hefyd yn bresennol: Clerc/Syrfëwr David Davies.

2. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb o'r cyfarfod gan y Cynghorwyr I Davies, Ms S Lyle a Mr N A C Davies.

3. Datganiad o Dderbyn Swydd Fel Cynghorwyr

Arwyddodd yr holl Aelodau a oedd yn bresennol ddatganiad o dderbyn swydd fel Cynghorydd.

4. **Gwobr Terry Price**

Gan nad oedd y tlws wedi bod ar gael yn ystod y seremoni wobrwyo flaenorol, cyflwynodd y Cadeirydd dlws i Rhys Williams a oedd, yn ddiweddar, wedi ennill Gwobr Terry Price,

5. Cadeirydd sy'n ymadael

Wrth annerch y Cyngor, nododd y Cynghorydd G Thomas bod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod anodd iawn i'r Cyngor, gyda nifer o broblemau yn codi eu pennau. Roedd hi'n werth nodi bod y bobl sy'n meddu ar ddaliadau croes i ddaliadau'r Cyngor, ac a oedd wedi

cynnig eu hunain i'w hethol yn yr etholiad diweddar heb gael eu hethol i'r Cyngor.
Cynigiodd y Cynghorydd B Thomas bleidlais o ddiolch ar ran y Cyngor am waith y Cadeirydd yn ystod y flwyddyn.
Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd B Davies. Cymeradwywyd y cynnig yn unfrydol.

6. Ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2017-2018

Cynigiodd y Cynghorydd A Blackley bod y Cynghorydd M Nicholas yn cael ei ethol yn Gadeirydd ar y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2017-18.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. B Davies, a chymeradwywyd y cynnig yn unfrydol gan y Cyngor
Ar wahoddiad y Clerc, arwyddodd y Cyng. M Nicholas y datganiad i dderbyn ei swydd fel Cadeirydd y Cyngor.

7. Araith y Cadeirydd

Diolchodd y Cadeirydd newydd, y Cynghorydd M Nicholas, i'r cyn Gadeirydd am ei waith a'i gefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, a chroesawodd y ddau Gynghorydd newydd eu hethol, sef y Cynghorydd C Davies a'r Cynghorydd S Lyle. Dywedodd both nifer o ddatblygiadau newydd wedi eu dechrau yn ystod y flwyddyn yn y ddwy gymuned, a bod cynlluniau ar y gweill at y dyfodol. Bydd y rhaglen trosglwyddo asedau yn cynnig heriau newydd yn ystod y flwyddyn nesaf, a nododd y bwriad, yn y flwyddyn gyfredol, i gyflogi Swyddog Datblygu Cymunedol. Yn ychwanegol, cyflwynwyd adroddiad yn rhestru'r amrywiol roddion sydd wedi'u hawdurdodi i'w talu i fudiadau lleol.

8. Ethol Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2017-2018

Cynigiwyd gan y Cyng. B Evans ac eiliwyd gan y Cyng. B Thomas bod y Cyng. A Blackley yn cael ei enwebu'n Is-Gadeirydd am y flwyddyn ariannol 2017 -18. Ar wahoddiad y Clerc, arwyddodd y Cyng. A Blackley y datganiad i dderbyn y swydd o Is-Gadeirydd y Cyngor am y cyfnod 2017 – 2018.

9. Bendith – Glan Roberts

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cynigiodd y Parchedig W.G.M. Roberts fendith ar waith y Cyngor am y flwyddyn sydd i ddod.

10. Atal Busnes

Gyda hynny, ataliodd y Cadeirydd unrhyw fusnes pellach y Cyngor, gan ohirio'r cyfarfod tan ddydd Mercher, 7fed Mehefin 2017.